# Rhaglen Teithiau Iach




**Mae ein Rhaglen Teithiau Iach yn gweithio gydag ysgolion ledled Cymru i greu diwylliant sy'n ei gwneud hi'n haws i blant gerdded, olwynio, sgwtera, neu feicio.**



**Lleihau'r defnydd o geir 30% ar y daith i'r ysgol**

**Cynyddu teithio llesol gan 25%**

**Datblygu unigolion iach, hyderus**

**ebostiwch ni: schoolswales@sustrans.org.uk**

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Rhaglen Teithiau Iach

Beth gewch chi

## Swyddog Teithiau Iach Penodedig

Cefnogaeth gyda chynllunio, hyrwyddo a chyflwyno ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau gan swyddog Teithiau Iach. Bydd swyddogion nid yn unig yn cefnogi disgyblion, ond hefyd yn darparu cyfleoedd i athrawon, rhieni a llywodraethwyr ddatblygu'r hyder, y brwdfrydedd a'r sgiliau i deithio'n llesol i'r ysgol.

## Adnoddau

Byddwch yn cael mynediad i gynlluniau sesiynau sgiliau, gweithgareddau dosbarth, a'n harolwg teithio rhyngweithiol 'Tali Teithio'. Mae ein hadnodd cwricwlwm ar thema teithio llesol yn galluogi athrawon i ymgorffori gweithgareddau dosbarth sy'n ymwneud â theithio llesol ar draws y tri sgil trawsgwricwlaidd gorfodol; Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol. Mae dysgu a chymryd rhan mewn teithio llesol yn cyffwrdd â llawer o Feysydd Dysgu a Phrofiad, yn fwyaf nodedig yw 'Iechyd a Lles' a 'Dyniaethau'.

## Gwobrau a chymhellion

Gall ysgolion fanteisio ar amrywiaeth o gymhellion a gostyngiadau i gefnogi a hyrwyddo teithio llesol. Mae hyn yn cynnwys ein Gwobr Ysgol Teithio Llesol, sy'n galluogi ysgolion i olrhain cynnydd trwy dair lefel o deithio llesol - efydd, arian ac aur a derbyn tystysgrifau a phlaciau.

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Rhaglen Teithiau Iach

**Beth fyddwn ni'n ei gyflawni**

## Cynnydd mewn teithio llesol

Mae ysgolion sy'n cael cymorth gan Teithiau Iach yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc a theuluoedd sy'n teithio'n llesol i'r ysgol. Ar ôl blwyddyn o gefnogaeth, mae ysgolion yn gweld cynnydd o 25% ar gyfartaledd, mewn teithio llesol ar y daith i'r ysgol.

## Unigolion iach, hyderus

Mae bod yn actif ar y daith i'r ysgol yn helpu i wella iechyd corfforol a lles cymuned yr ysgol ynghyd â buddion eraill fel canolbwyntio, perfformiad, ymddygiad a chyrhaeddiad gwell. Mae hyn yn arwain at unigolion iach, hyderus.

## Gwell ansawdd aer

Ar ôl blwyddyn ar y rhaglen, mae ysgolion Teithiau Iach ar gyfartaledd yn gweld gostyngiad o 30% yn y defnydd o geir ar y daith ysgol. Mae'r gostyngiad hwn mewn traffig a thagfeydd yn helpu i wella ansawdd aer ar strydoedd ysgol.

## Ysgolion wedi'u grymuso

Mae cynnwys staff, disgyblion a rhieni yn grymuso ysgolion i fod yn annibynnol a chreu newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad teithio ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan. Mae hyn yn meithrin ymrwymiad disgyblion i gynaliadwyedd y blaned, yn barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Rhaglen Teithiau Iach




## Sut i gymryd rhan

### Cam 1:

Lawrlwythwch a chwblhewch Gynllun Teithio Llesol Ysgol, gan ddefnyddio'r pecyn cymorth ar gyfer arweiniad.

### Cam 2:

Yn eich Cynllun Teithio Llesol Ysgol, nodwch y newid mewn ymddygiad teithio yr ydych yn gobeithio ei weld ymhlith disgyblion a rhieni. Nodwch y camau gweithredu a allai eich helpu i gyflawni'r uchelgais hwnnw.

### Cam 3:

Lle mae eich uchelgais yn cyd-fynd â'r sgiliau, y gweithgareddau a'r ymyriadau y gall y Rhaglen Teithiau Iach eu cynnig, byddwn yn trefnu cyfarfod i gytuno ar sut y gall eich Swyddog Teithiau Iach lleol ddechrau eich cefnogi.

**Cwestiwn? Ebostiwch ni:**
**schoolswales@sustrans.org.uk**

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan
**Llywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**